

**Cyfeirnod:** IR772

**Dyddiad cyhoeddi:** 6 Ebrill 2021

## Gwybodaeth ynghylch lle rydych wedi ymwneud â Stonewall

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth 7 Chwefror 2021 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth ynghylch lle mae Archwilio Cymru wedi ymwneud â Stonewall, ac ymhellach i'm e-bost 5 Mawrth 2021, lle eglurais fod angen ymestyn yr amser. Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

**1. Unrhyw gais a wnaethoch yn 2019 neu 2020 i fod yn "Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall" neu i gael eich cynnwys ar "FyNEGAI Cydraddoldeb yn y Gweithle" gan Stonewall, gan gynnwys unrhyw atodiadau neu atodiadau i'r ceisiadau hynny. Dylech olygu manylion personol os oes angen.**

Cofrestrwyd gennym i fod yn aelod o Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall Cymru yn 2017 ac rydym wedi adnewyddu hyn yn flynyddol, er mwyn parhau â'n statws Hyrwyddwr Amrywiaeth. Gwnaethom gais am y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle yn 2019 a 2020 (yn ogystal ag un cyn y cyfnod hwn) – gwnaed cyfanswm o dri chais.

Rwy'n atal copïau o'r ceisiadau o dan adran 43(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth rhag cael ei datgelu lle byddai datgeliad o'r fath yn rhagfarnu buddiannau masnachol unrhyw berson, neu y byddai'n debygol o wneud hynny. Gan y gallai datgelu'r cais wedi'i gwblhau alluogi sefydliadau eraill i gamdrafod eu ceisiadau, byddai hyn yn debygol o beryglu cadernid canfyddedig y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle yn y dyfodol, gan arwain at lai o gyfranogiad a thrwy hynny ragfarnu buddiannau masnachol Stonewall.

Rwyf wedi ystyried budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth hon: rhoi gwybod i'r cyhoedd am y defnydd o arian cyhoeddus a rhoi gwybod i gyrff am yr hyn a allai fod o fudd i hyrwyddo amrywiaeth. O ran y pwynt olaf, nodaf fod Stonewall yn cyhoeddi eu rhestr o 100 Cyflogwr uchaf, ar eu gwefan, y maent yn ei llunio o'r Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle. Mae'r astudiaethau achos ('Yr hyn y mae'r Cyflogwyr Gorau yn ei wneud') ac adroddiad sy'n ymwneud â'r 100 Cyflogwr gorau yn cyfeirio

at y naw maes gwerthuso ar gyfer y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle. Mae'r deunyddiau hyn hefyd yn darparu enghreifftiau o arfer da ar draws ystod o sefydliadau, ac mae'n ymddangos i mi fod argaeledd y wybodaeth hon yn lleihau'r achos dros ddarparu gwybodaeth sy'n destun proses asesu gyfrinachol.

Yn gyffredinol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod cydbwysedd budd y cyhoedd yn erbyn datgelu. Felly, ar y cyfan, rwyf o'r farn bod budd y cyhoedd o ran cynnal yr esemptiad yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu. Wrth ddod i'r casgliad hwn rwyf wedi ystyried Canllawiau'r ICO ar adran 43 - buddiannau masnachol: <https://ico.org.uk/for-organisations/section-43-commercial-interests/>.

Mae'r wybodaeth am geisiadau yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth bersonol a gwybodaeth am categorïau arbennig a gyflwynwyd yn ystod y broses ymgeisio ar y sail y byddai hyn yn cael ei gadw'n gyfrinachol rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Stonewall. Mae hysbysiad preifatrwydd Stonewall yn nodi: "*Mae'r wybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol rhwng Stonewall a'r ymgeisydd/sefydliad.- Bydd unrhyw safleoedd y tu allan i'r 100 Uchaf yn parhau'n gyfrinachol rhwng Stonewall a'r ymgeisydd/sefydliad*". Ni fyddai datgelu'r wybodaeth bersonol o fewn disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw a byddai'n mynd yn groes i egwyddorion diogelu data. Felly, mae gwybodaeth o'r fath wedi'i heithrio o dan Adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae hwn yn eithriad absoliwt, sy'n golygu nad oes rhaid inni gydbwysu buddiannau'r cyhoedd mewn datgelu.

## **2. Unrhyw adborth a gawsoch yn 2019 neu 2020 gan Stonewall mewn perthynas â naill ai cais neu raglen.**

Cawsom adborth mewn perthynas â cheisiadau Mynegai'r Gweithle yn 2019 a 2020. Rwy'n cadw'r wybodaeth hon yn ôl o dan yr esemptiad yn adran 43(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n ymwneud â rhagfarnu buddiannau masnachol ar y sail a amlinellir yn yr ymateb i (C1) uchod.

Darparwyd y wybodaeth adborth gan Stonewall ar y sail na fyddai'n cael ei rhannu ymhellach ac y byddai'n cael ei thrin yn gyfrinachol. Fel y cyfeirir ato yn C1, mae hysbysiad preifatrwydd Stonewall yn nodi "*Mae'r wybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol rhwng Stonewall a'r ymgeisydd/sefydliad.- Bydd unrhyw safleoedd y tu allan i'r 100 Uchaf yn parhau'n gyfrinachol rhwng Stonewall a'r ymgeisydd/sefydliad*".

Hefyd, mae:

*"Unrhyw sgôr neu sylwadau a wneir ar y cyflwyniad yn gyfrinachol rhwng Stonewall a'r ymgeisydd/sefydliad..."*

Felly, rwyf hefyd o'r farn bod adran 41(1) Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol, sy'n darparu nad oes rheidrwydd arnom i ddatgelu gwybodaeth sydd wedi'i darparu i ni'n gyfrinachol. Mae telerau'r eithriad hwn yn golygu nad oes rhaid i ni ystyried a fyddai er budd y cyhoedd i chi gael y wybodaeth ai peidio.

**3. Unrhyw ohebiaeth arall a gawsoch gan Stonewall yn 2019 neu 2020 oni bai ei bod yn freintiedig neu wedi'i heithrio fel arall rhag cael ei datgelu (ond os ydych yn hawlio braint neu esemptiad mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd, dywedwch yn fras beth yw'r deunydd a'r sail yr ydych yn honni bod gennych hawl i'w ddal yn ôl).**

Rydym yn cynnal rhai negeseuon e-bost gan Stonewall sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol a hyfforddiant rhagfarn anymwybodol. Mae'r e-byst yn cynnwys data personol, ac rwyf o'r farn bod y wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn mynd yn groes i'r egwyddorion diogelu data. Rwyf hefyd o'r farn bod adran 41(1) Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn ymwneud â rhywfaint o'r cynnwys, sy'n darparu nad oes rheidrwydd arnom i ddatgelu gwybodaeth sydd wedi'i darparu i ni'n gyfrinachol. Yn unol ag yr atebion uchod i C1 a C2, mae telerau'r eithriadau hyn yn golygu nad oes rhaid i ni gymhwysu'r prawf er budd y cyhoedd.

**4. Manylion llawn unrhyw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd gennych yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r ceisiadau hyn (gan gynnwys unrhyw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd cyn gwneud cais cynharach o'r un math, os na wnaed asesiad ychwanegol).**

Ni wnaethom gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw un o'n ceisiadau.

**5. Manylion cyfanswm yr arian a dalwyd gennych i Stonewall (i) yn 2019; (ii) yn 2020, p'un a oedd i dalu am nwyddau neu wasanaethau ai peidio.**

Mae'r cyfanswm a dalwyd i Stonewall fel a ganlyn:

- (i) £4,807
- (ii) £4,200

**6. A ydych yn bwriadu parhau i fod yn aelod o unrhyw gynllun Stonewall yn y dyfodol, ac os felly pa un.**

Ar hyn o bryd mae gennym statws Hyrwyddwr Amrywiaeth a bydd y penderfyniad i adnewyddu'r statws hwn, neu unrhyw gais mynegai gweithle yn y dyfodol yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd gan AD. Mae ein statws Hyrwyddwr Amrywiaeth wedi'i gadarnhau ar ein tudalen recriwtio, a thudalen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall:

<https://www.audit.wales/cy/jobs>

<https://www.stonewall.org.uk/diversity-champions-members>

Os hoffech ofyn am adolygiad mewnol ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, drwy e-bost at [martin.peters@archwilio.cymru](mailto:martin.peters@archwilio.cymru) neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid imi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth lle gallwch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais ai peidio yn unol â'r Ddeddf. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire SK9 5AF

e-bost: [casework@ico.gsi.gov.uk](mailto:casework@ico.gsi.gov.uk)

Tel: 01625 545745  
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi disbyddu ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn delio â chais o'r fath. Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth